The Electoral Commission

Taflen ffeithiau i ymgeiswyr: Cyflwyno anerchiad etholiadol yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Cyflwyniad

Mae anerchiad etholiadol yn ddatganiad ymgyrch y bydd ymgeisydd yn ei wneud er mwyn darbwyllo etholwyr i bleidleisio drosto mewn etholiad.

Yn yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar 5 Mai 2016, bydd y Gweinidog Gwladol perthnasol yn darparu gwefan lle y gellir cyhoeddi anerchiadau etholiadol ymgeiswyr a byddant ar gael i unrhyw un eu gweld: www.choosemypcc.org.uk/cy/

A oes angen anerchiad etholiadol arnaf?

Nac oes. Mae'n ddewisol. Fodd bynnag, os byddwch yn dewis cael un, rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r rheolau.

Pwy sy'n paratoi'r anerchiad etholiadol?

Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r anerchiad etholiadol gael ei baratoi gan eich asiant. Os ydych yn gweithredu fel eich asiant eich hun, chi fyddai'n ei baratoi.

Y templed

Rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen swyddogol a baratowyd ar gyfer yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Cysylltwch â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu i gael templed.

Rhaid i'r anerchiad etholiadol gael ei gwblhau yn Gymraeg neu Saesneg. Wrth gyflwyno anerchiad etholiadol, gall asiant etholiadol hefyd gyflwyno cyfieithiad Cymraeg neu Saesneg ohono, a rhaid i'r cyfieithiad hwnnw fod yn un

cyflawn a chywir. Nid yw'r terfyn o 300 o eiriau yn berthnasol i unrhyw gyfieithiad (gweler 'Y datganiad' drosodd).

Cynnwys anerchiad etholiadol

Beth y mae'n rhaid i mi ei gynnwys?

Dim ond materion sy'n ymwneud â'r etholiad y gellir eu cynnwys mewn anerchiad etholiadol. Rhaid i'r anerchiad etholiadol gynnwys:

- eich enw
- enw ardal yr heddlu
- enw a chyfeiriad eich asiant etholiadol
- datganiad sy'n nodi iddo gael ei baratoi gan eich asiant etholiadol

Beth y gallaf ei gynnwys?

Gallwch hefyd gynnwys y canlynol:

- os ydych yn sefyll ar ran plaid wleidyddol, arwyddlun a disgrifiad – ar yr amod eich bod wedi'ch awdurdodi i sefyll ar ran y blaid gan y Swyddog Enwebu (neu gan rywun arall ar ei ran)
- ffotograff ohonoch – rhaid sicrhau nad oes unrhyw un arall yn y ffotograff ac nad yw'n torri'r rheolau o ran yr hyn na ellir ei gynnwys mewn anerchiad etholiadol (gweler isod)
- datganiad o hyd at 300 o eiriau o hyd (gweler isod)
- manylion cyswllt

Y datganiad

Mae'r datganiad yn gyfle i hyrwyddo eich ymgeisyddiaeth mewn 300 o eiriau neu lai.

Mae enw a chyfeiriad eich asiant, a'r datganiad mai eich asiant etholiadol sydd wedi paratoi eich anerchiad etholiadol, yn cyfrif tuag at y terfyn o 300 o eiriau.

Ni chaiff y datganiad gynnwys unrhyw fformatio, megis lluniau, siartiau neu dablau. Gall gynnwys pwyntiau bwled (●) a thestun **trwm** lle y dymunwch.

Arwyddluniau

Os gofynnir am arwyddlun, rhaid iddo fod yn gopi o'r arwyddlun fel y'i cofrestrwyd â'r Comisiwn Etholiadol. Gall asiantiaid ofyn am fersiwn liw o'r arwyddlun, ond ni allant ofyn am gael defnyddio rhannau neu elfennau o'r arwyddlun cofrestredig yn unig, ac ni ellir 'ymestyn' yr arwyddlun er mwyn newid ei siâp ychwaith.

Beth na ellir ei gynnwys yn yr anerchiad etholiadol?

Rhaid sicrhau nad yw'r anerchiad etholiadol yn cynnwys y canlynol:

- Deunydd hysbysebu (heblaw am ddeunydd sy'n eich hyrwyddo chi fel ymgeisydd yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu)

- Deunydd sy'n cyfeirio at ymgeiswyr eraill yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
- Deunydd sydd wedi'i gynnwys gyda'r nod o sicrhau manteision masnachol
- Deunydd sy'n anweddus, yn aflan neu'n sarhaus
- Deunydd sy'n gyfystyr â chyflawni trosedd

Cyflwyno'r anerchiad etholiadol

Rhaid i'ch asiant anfon eich anerchiad etholiadol at Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ar ffurf electronig i gael ei gymeradwyo. Mae manylion cyswllt Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ar gael o wefan y Comisiwn.

Rhaid cyflwyno'r anerchiad ar ffurf electronig oni fydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn caniatáu i chi ei gyflwyno ar ffurf copi caled. Dylech holi Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu cyn gynted â phosibl os nad oes modd i chi gyflwyno eich anerchiad yn electronig.

Pryd y dylid cyflwyno'r anerchiad etholiadol?

Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno anerchiadau etholiadol yw **hanner dydd ar 7 Ebrill 2016** – rhaid i chi sicrhau bod eich anerchiad etholiadol yn cyrraedd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu cyn y terfyn amser hwn.

Fodd bynnag, dylai eich asiant gyflwyno'r anerchiad cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod digon o amser iddo gael ei ddychwelyd ato os bydd angen gwneud newidiadau neu gywiriadau a'i fod yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ymgeisydd mewn pryd.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi gyflwyno'r anerchiad?

Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn sicrhau bod yr anerchiad etholiadol yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol. Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn rhoi cyfle i'ch asiant etholiadol wirio a chywiro cynnwys eich anerchiad etholiadol (os bydd angen).

Os bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn gwrthod yr anerchiad etholiadol, bydd yn rhoi gwybod i'ch asiant etholiadol beth yw'r rheswm dros hynny, gan esbonio sut i'w gywiro ac erbyn pryd.
Gall Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu wneud unrhyw 'fân gywiriadau' fel sy'n briodol yn ei farn ef, a gall fynd ati i'w anfon at y Gweinidog heb gysylltu â chi na'ch asiant.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn anfon yr anerchiad etholiadol at y Gweinidog. Bydd eich asiant yn cael copi o'r anerchiad cyn iddo gael ei gyhoeddi er mwyn gwirio'r cynnwys a sut y bydd yn ymddangos ar y wefan. Bydd cyfnod byr ar gael i

wneud mân gywiriadau. Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn rhoi rhagor o fanylion i chi am y broses a'r amseriadau.

Cyhoeddir yr anerchiad etholiadol ar wefan y Gweinidog cyn gynted ag sy'n ymarferol **ar ôl 4pm ar 7 Ebrill 2016**.

Sut y gallwn helpu?

Mae rhagor o wybodaeth am yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar gael yn ein hystod lawn o ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Os yw'n haws, gallwch hefyd ein ffonio drwy ddefnyddio'r rhifau ffôn isod neu drwy anfon e-bost atom. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Os ydych yn ymgeisydd yn Lloegr

Cysylltwch â ni yn:
infoengland@electoralcommission.org.uk
Ffôn: 0333 103 1928

Os ydych yn ymgeisydd yng Nghymru

E-bostiwch ni yn:
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
Ffôn: 0333 103 1929